PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG


# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 10 | Mawrth 6, 2025 | 50c.

# TORRI CYMORTH I'R TLAWD I DALU AM ARFAU

Mae'r Arlywydd Trump wedi dweud nad yw America bellach yn barod i dalu am warantu diogelwch Ewrop yn erbyn bygythiad Rwsia. O ganlyniad, mae gwledydd Ewrop am gynyddu eu lluoedd arfog, ar gost o gannoedd o biliynau o bunnau. Ym Mhrydain, mae'r llywodraeth am gwrdd â'r gost ychwanegol trwy ddefnyddio cyfran uchel o'r arian sy'n cael ei wario ar Ddatblygiad Rhyngwladol, sef Cymorth Dramor. Mae sawl elusen wedi ymateb gyda braw, gan ddweud y bydd hyn yn cael effaith ddifrifol ar y bobl dlotaf yn y byd, ac o ganlyniad yn cynyddu'r potential am wrthdaro a rhyfel.

### Y manylion ariannol




Ar hyn o bryd mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwario £60 biliwn bob blwyddyn ar amddiffyn, sy'n gyfystyr â thua £1,000 am bob person sy'n byw yng ngwledydd Prydain, ac yn 2.3% o GDP, sef maint economi'r DU. Mae'r llywodraeth am godi hynny i 2.5%, ac i 3% ymhen pum mlynedd. Maen nhw am gwrdd â'r gost ychwanegol o dros £13 biliwn yn 2027 trwy ostwng gwariant ar Ddatblygiad Rhyngwladol o 0.5% o GDP i 0.3%. Roedd yn 0.7% tan iddo gael ei ostwng 'dros dro' yn 2020. Yn eu maniffesto, fe wnaeth Llafur addewid i'w godi 'nôl i hynny 'pan fyddai cyllid yn caniatáu.'

### Pam gwario ar Gymorth Dramor?

Dyma'r esboniad o wefan Llywodraeth y Deyrnas Unedig:

> Mae gwario cyfran fach o'n hincwm ar ddatblygiad rhyngwladol yn beth doeth yn ogystal â pheth iawn i'w wneud. Ers 2015, rydym wedi helpu bron i 20 miliwn o blant, gan gynnwys 10 miliwn o ferched, i gael addysg dda. Ers 2011, rydym wedi cefnogi dros 100 miliwn o bobl i ymdopi â newid hinsawdd. Mae'r cymorth yn fwy hanfodol nag erioed. Mae'r rhan fwyaf o bobl dlotaf y byd yn byw yn y gwledydd lleiaf datblygedig, y mae llawer ohonynt yn wladwriaethau bregus, neu sydd wedi'u heffeithio gan wrthdaro, sy'n aml yn dioddef lefelau uchel o lygredd, a rhaniadau ethnig neu wleidyddol.

Ond mae'n amlwg erbyn hyn nad yw'r gwariant yn 'fwy hanfodol nag erioed' yng ngolwg y llywodraeth.



### Ymateb yr elusennau

Mae nifer fawr o elusennau wedi ymateb gyda braw a siom i'r bwriad i dorri'r cymorth dramor. Dyma flas o rai:

'Mae cymorth rhyngwladol yn ffordd mor bwysig i ni gefnogi pobl sy'n wynebu rhai o'r argyfyngau mwyaf dwys yn y byd heddiw. Pan oedd Llafur wedi dod i rym yn San Steffan roedd addewid i ailosod safle'r Deyrnas Unedig yn fyd eang i fod yn bartner parchus i wledydd sy'n datblygu, ac mae'r newyddion yna'n gwrthwneud hynny.'


**Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru**
(llun: Cymorth Cristnogol)

'Rydym wedi cael ein syfrdanu gan y penderfyniad hwn i dorri'r gyllideb gymorth er mwyn cynyddu gwariant milwrol. Mae'n bradychu plant mwyaf bregus y byd a lles cenedlaethol y DU. Mae'n arwydd o gilio oddi wrth ymdrechion i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, tlodi byd-eang, gwrthdaro ac anghenion dyngarol.'

**Moazzam Malik, Achub y Plant**

*parhad ar dudalen 2*

## YMDDEOLIAD Y PARCHG TREFOR JONES MORRIS



Cafwyd noson arbennig yn Pisga, capel Bro Tegla, i ddiolch i'r Parchg Trefor Jones-Morris am ei wasanaeth am un mlynedd ar ddeg. Yn ystod ei weinidogaeth, cawsom y fraint o ailagor y capel ar ei newydd wedd, wrth i'r Presbyteriaid ymuno â ni yn y fenter newydd. Bu'n ddoeth ei arweiniad ac yn y gymeradwy gan bawb. Bydd chwithdod mawr ar ei ôl.

Cafodd ei longyfarch am ddathlu 46 mlynedd yn y weinidogaeth yn Seilo Llangeler, Hermon Cynwyl Elfed, Seion Llandysul, ac Ebeneser Wrecsam cyn dod i Pisga yn 2013. Anrhegwyd Trefor ar ran yr eglwys gan Tegla Jones, ac fe gyflwynodd Margaret Thomas dusw o flodau i Elen Jones-Morris.



Paratowyd gwledd i ddilyn gan ferched y capel. Cafwyd noson hapus yng nghwmni ein gilydd a dymunwn y gorau i Trefor ar ei ymddeoliad.

## TORRI CYMORTH I'R TLAWD I DALU AM ARFAU – *parhad*

'Mae'r gyllideb gymorth yn achub bywydau ledled y byd. Bydd ei dorri yn arwain at fwy o farwolaethau, mwy o glefydau, a mwy o wrthdaro.'

**Nigel Harries, Tearfund**

'Dyma weithred greulon sy'n llythrennol yn mynd â bwyd o gegau pobl fwyaf newynog y byd, pan fod tlodi yn waeth nag erioed.'

**Peter Waddup, The Leprosy Mission**

### Cyfiawnhad?

Mae Llywodraeth y DU yn dadlau fod angen yr arian i sicrhau diogelwch Prydain trwy gynyddu'r lluoedd arfog ar dir, môr ac yn yr awyr. Ond fe ddywedodd y Parchedicaf Stephen Cottrell, Archesgob Caerefrog: 'Mae gwir ddiogelwch nid yn unig yn ymwneud â chryfder milwrol – mae hefyd yn ymwneud â mynd i'r afael ag achosion sylfaenol gwrthdaro, tlodi, ac ansefydlogrwydd.'

Yn y cyfamser, mae'r Arlywydd Trump am roi stop ar 90% o gynlluniau USAid sy'n gwario $60 biliwn ar brosiectau i ymladd newyn a chlefydau difrifol, ac yn darparu cysgod i filiynau o ffoaduriaid mewn nifer fawr o wledydd. Mae Mr Trump yn dweud bod y fath gymorth yn wastraff arian. Mae e wedi rhoi'r cyfrifoldeb am gyflawni hyn i Elon Musk, y dyn mwyaf cyfoethog yn y byd.

**Alun Lenny**

## TYMHORAU BYWYD

Yng ngwanwyn oes fe neidiwn ni
Wrth olau'r haul ar ddechrau'r dydd,
Gan glywed swyn y ddwyfol gerdd
Mewn byd mor bert a gwlad mor werdd.

Yn haf ein hoes fe redwn ni
Wrth wres yr haul ar ganol dydd,
Gan glywed llais y Meistr draw
Mewn byd a greodd Ef â'i law.

Yn hydref oes fe gerddwn ni
Wrth d'wyllu wnaiff yn hwyr y dydd,
Gan glywed sŵn y glaw uwchben
Mewn byd o liw dan fwa'r nen.

Yng ngaeaf oes fe lusgwn ni
Wrth oeri wnaiff ar ddiwedd dydd,
Gan glywed hud y noson fawr
Mewn cwsg mor hir cyn toriad gwawr.

**Peter Davies**

## Myfyrdod byr

### *La main tendue*

Peintiwyd y llun hwn sy'n dwyn y teitl *La main tendue* (Help llaw,1881) gan y Ffrancwr Emile Renouf (1845–94). Roedd Renouf yn arbenigwr ar bortreadu bywyd morwrol ar arfordiroedd Ffrainc ac y mae y mwyafrif o'i beintiadau yn cynnwys golygfeydd o'r môr, cychod a physgotwyr. Y mae'r darlun hwn yn eithriadol o grefftus ac yn cynnwys manylion. Sylwch fel y mae'r ddau yn gwisgo clocsiau pren am eu traed, fel yr oedd yr arfer yng Nghymru. Yn y cefndir fe welir dŵr llyfn gyda chreigiau peryglus, cychod a thir yn y pellter. Mae'r ferch fechan yn gwisgo dillad cyffredin gwerinol, yn ôl pob tebyg, ac y mae gwedd bur ddifrifol ar ei hwyneb. Mae gan y pysgotwr getyn yn gorffwyso'n gartrefol rhwng ei wefusau ac mae ei ddillad wedi treulio o ganlyniad i'w waith dyddiol corfforol. Ymddengys ei wyneb garw, profiadol yn llawn addfwynder a gofal dros y ferch. Taid efallai.

### Help llaw

Un o'r pethau mwyaf trawiadol yw dwylo'r ddau. Mae dwylo'r ferch yn fychan ac er eu bod yn fudron, edrychant yn wan a bregus. Ni allant gwmpasu'r rhwyf llydan yn hytrach gorffwysant arno. O'u cymharu mae dwylo'r pysgotwr n sy'n rhai mawr, garw, caled a phwerus. Mae ôl diwydrwydd a phrofiad y blynyddoedd arnynt.

Enw awgrymog y darlun yw *La main tendue* sef 'Help llaw'. Efallai bod y ferch fach, a'i hwyneb difrifol, yn credu ei bod yn gwneud y gwaith mwyaf wrth rwyfo'r cwch. Ond fe wyddom ni yn iawn mai'r pysgotwr sy'n cario pen trymaf y baich. Ganddo ef y mae'r grym i symud y cwch yn ei flaen. Pwy sy'n helpu pwy yn y sefyllfa hon? Ai'r ferch sy'n cynorthywo'r pysgotwr yntau'r pysgotwr y ferch?

### Helpu Duw

Fel Cristnogion teimlwn weithiau mai ni sydd yn gwneud y rhan fwyaf o waith Teyrnas Dduw a bod y cwbl yn dibynnu arnom ni. Ond y gwirionedd yw mai Duw sy'n cyflawni'r gwaith a dim ond helpu rydym ni. Gwaith Duw ydyw gwaith yr eglwys ac fe fydd Ef yn cyflawni ei fwriadau trwy ei bobl doed a ddelo. Y ffaith fendigedig yw bod Duw yn ei gwahodd ni i'w gynorthwyo ac i roi help llaw.

Ar ben hynny, weithiau teimlwn fel unigolion ein bod yn wan a di-nerth yn brwydro yn erbyn amgylchiadau croes bywyd. Mae problemau yn mynd yn drech na ni a theimlwn ein bod yn fethiant llwyr o dan y baich. Ond fel pobl Iesu Grist nid ydym byth ar ein pennau ein hunain, nac yn gweithredu yn ein nerth ein hunain, oherwydd y mae Ef gyda ni trwy'r Ysbryd pob palaf o'r rhwyf.

> Dydy Duw ddim wedi rhoi ei Ysbryd i ni fod yn llwfr, ond i'n gwneud ni'n gryf, yn llawn cariad ac yn gyfrifol.
>
> 2 Timotheus 1:7



Yr Adran
Gydenwadol

MAWRTH 6 2025 RHIF 210

# Brecwast Rhinwedd a Moes



Yn y llun, o'r chwith i'r dde: Gwenda Mathias (Trysorydd), y Parchedig Guto Llywelyn, y Parchedig Ken Thomas, y Parchedig Eirian Wyn Lewis (Llywydd yr Ŵyl), y Prifardd a'r Prif Lenor Dylan Iorwerth, Anna Williams (Ysgrifenyddes), Ann Siriol, Ceirios Jenner, Ceris Llewelyn (Ysgrifenyddes)

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yn hanes eglwysi Bedyddwyr ac Annibynwyr Taf a Chleddau, eglwysi sy'n ffinio sir Benfro a sir Gaerfyrddin, yw cael dod ynghyd i frecwast yng Nghaffi Beca, Efail-wen, a hynny ar drothwy Gŵyl Ddewi. A dyna ddigwyddodd, yn ôl yr arfer, ddydd Sul, 23 Chwefror.

Daeth dros 80 ynghyd er gwaetha'r storm a'r glaw. Profwyd cymdeithas gynnes o amgylch y byrddau a bu'r cymdeithasu yn frwd.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu, a chafwyd arweiniad defosiynol gan y Parchedig Guto Llywelyn, Hendy-gwyn ar Daf, a'r Parchedig Ken Thomas, Maenclochog.

Darllenodd Ann Siriol, Mynachlog-ddu, eiriau'r emyn sy'n crynhoi rhinweddau, delfrydau a phwrpas cynnal yr ŵyl arbennig hon, sef Gŵyl Rhinwedd a Moes, yr hen Gymanfa Ddirwest 'slawer dydd. Cyfeiliwyd y canu i'r emynau pwrpasol gan Ceirios Jenner, organyddes yng Nghalfaria, Login.

Y Prifardd a'r Prif Lenor Dylan Iorwerth, Alltyblaca, a wahoddwyd i annerch. Yn unol â'r disgwyl, cafwyd ganddo neges berthnasol a chyfoes yn sôn yn benodol am ddau Undodwr o bwys, sef y Parchedig D. Jacob Davies (1916–74) a'r Parchedig Ddr Arthur Powell Davies (1902–57), Washington, Unol Daleithiau'r Amerig. Roedd enw a chyfraniad Jacob Davies yn gyfarwydd i'r gynulleidfa, ond enw dieithr oedd Arthur Powell Davies. Fe'n goleuwyd, serch hynny, yn y traethu hwylus a'r paratoi manwl am gyfraniad y gwron Arthur Powell Davies fel gweinidog mawr ei ddylanwad yn yr Amerig.

Casglwyd y swm anrhydeddus o £400 tuag at Ymchwil Clefyd Parkinson.

Bu'n orig wir fendithiol ac adeiladol, a braf oedd inni gael dod ynghyd fel aelodau eglwysi'r cylch ar achlysur mor arbennig.

*Eirian Wyn Lewis*







# Cofio am bobl Wcráin dair blynedd ers ymosodiad Rwsia

Aeth tair blynedd heibio ers i Rwsia ymosod ar Wcráin, ac yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd miloedd yn colli eu bywydau, miliynau'n ffoi, a difrod i isadeiledd y wlad – gydag ysbytai, ysgolion a chartrefi yn ddim byd ond rwbel erbyn hyn. Dyma rannu dwy weddi a baratowyd gan yr Eglwys yng Nghymru i nodi'r achlysur, gan fawr obeithio y gwelwn gadoediad a heddwch yn fuan.

## Gweddi dros y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i'r rhyfel

Arglwydd Dduw,
clyw ein cri dros bawb sy'n dioddef o ganlyniad i'r rhyfel hwn,
dros bawb yn y wlad hon sy'n pryderu dros anwyliaid sy'n byw yn Wcráin,
dros bawb sydd wedi ffoi o'u mamwlad ac yn hiraethu,
dros bawb sydd wedi colli eu cartrefi ac yn anobeithio am y dyfodol,
dros bawb sydd wedi cael eu hanafu'n gorfforol, yn feddyliol neu'n ysbrydol gan y gwrthdaro,
dros bawb sy'n galaru am anwyliaid a laddwyd yn y bomio a'r brwydro.

Arglwydd, gwelwn yn rhy eglur y llanast a'r gost ddynol sydd i'r rhyfel hwn,
gofynnwn iti amgylchynu pawb sydd dy angen di heddiw â gwybodaeth o'th gariad di-ffael.



Meddala galonnau ac agor llygaid pawb sy'n mynnu parhau â'r ymosodiad milwrol treisgar hwn
fel y gallant weld y niwed, y poen a'r creulondeb y maent yn eu hachosi i'w cyd-ddyn,
ac o weld y poen,
y cânt eu harwain, trwy dy Ysbryd Glân, i edifarhau
ac o edifarhau geisio'r ffordd sy'n arwain at heddwch, cymod ac adferiad i'r rhan hon o'r byd,
drwy un a alwodd bawb i fyw mewn cytgord a thangnefedd, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

## Ceisiadau Medalau Gee



**Yr adeg hon o'r flwyddyn, rydym yn gwahodd eglwysi i gyflwyno enwau i dderbyn Medalau Gee ar gyfer 2025.**

**Bydd angen derbyn enwebiadau cyn diwedd mis Mehefin ar gyfer derbyn medalau yn yr hydref.**

**Cyflwynir medalau i ffyddloniaid yr Ysgol Sul sy'n 75 oed neu hŷn.**

**Mae'r holl wybodaeth gan gynnwys ffurflen gais ar gael o'n gwefan.**



## Neges Atgoffa

**Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, 2–9 Awst 2025: Pabell yr Eglwysi**

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru **nos Fercher, 12 Mawrth, am 7 o'r gloch yng Nghapel y Groes, Wrecsam**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod yr Eisteddfod eleni.

Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod ar gyrion dinas Wrecsam, a hynny rhwng 2 a 9 Awst 2025, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys gennym. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda.

Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 9 Mawrth, am 6:45yh**
**Diwrnod Rhyngwladol y Merched**
Rhodri Gomer sy'n nodi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yng Nghaerfyrddin gyda'r Parchedig Beti-Wyn James a'i merched, Sara ac Elin. Daw'r emynau o Gapel y Tabernacl, Treforys, a chawn berfformiad gan y gantores Nia Price

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 9 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Cymanfa Blant Annibynwyr Gorllewin Myrddin o gapel Blaen-y-coed, dan arweiniad Nicki Roderick

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 9 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Jones Williams, Cricieth

# Undod Cristnogol mewn Byd sy'n Chwalu

WYTHNOS 1

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Adnewyddu a dyfnhau ein hymrwymiad i undod**

**Darlleniad**
Effesiaid 4:1–6

**Myfyrdod**

Mae'r rhai sydd â phrofiad o ymwneud eciwmenaidd ystyrlon yn aml yn ei weld yn brofiad trawsnewidiol. Teimlant wedi eu cyfoethogi yn eu ffydd yn sgil y ddeialog â safbwyntiau a phrofiadau amrywiol. Mae'r gymdeithas yn ddyrchafol ac yn adfywiol, yn enwedig pan fyddwn yn wynebu materion heriol a dewisiadau anodd ynghylch ble i fuddsoddi amser ac adnoddau prin. Mae'r undod yn ein cadarnhau yn ein gwaith ac yn ein hannog i ddal ati.

Gall fod yn anodd cyfleu grym ysbrydol yr ymwneud eciwmenaidd hwn i'r rhai nad ydynt yn rhan ohono. Mae'n rhaid ei brofi i'w ddeall yn llawn. Wrth i ni edrych o gwmpas ein cymunedau eglwysig gwelwn fod gormod o bobl heb gael y cyfle i'w brofi. Mae rhai o'r rhwystrau'n strwythurol – yn ystod bywyd 'arferol' yr Eglwys, dyw pobl ddim yn cael digon o gyfleoedd i brofi gweithgarwch eciwmenaidd. Gall rhwystrau eraill fod yn rhai mwy personol, er enghraifft diffyg hyder oherwydd bod pobl yn teimlo nad oes ganddyn nhw'r wybodaeth na'r profiad i gyfrannu at ddeialog eciwmenaidd.

Wrth i ni fyfyrio ar 1700 mlwyddiant Cyngor Nicea, mae'n briodol ystyried sut rydym yn siarad am waith undod Cristnogol, ac a allem wneud hyn yn fwy effeithiol. A yw'r rhai sydd heb fod yn ymwneud â'r gwaith hwn ar hyn o bryd yn cael gweledigaeth glir a grymus fyddai'n eu hysgogi i gymryd rhan ynddo?

Mae llawer i'w ddathlu yn yr hyn a gyflawnwyd yn ystod ein taith eciwmenaidd a'r ffordd y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at undod mewn cenhadaeth a thystiolaeth o'n ffydd yn y maes cyhoeddus. Gellir deall, pan fyddwn yn dod at ein gilydd, ein bod yn dymuno canolbwyntio ar y pethau rydyn ni'n eu rhannu, a'r hyn sy'n ein cysylltu. Ac eto, mae 'run mor bwysig osgoi'r demtasiwn i leihau ein gwahaniaethau ac anwybyddu'r tensiynau.

Yn ogystal â dechrau'r gwaith o lunio Credo Nicea, a fyddai'n cael ei gwblhau'n ddiweddarach, cytunodd Cyngor Nicea ar gasgliad o ganonau i reoleiddio rhai agweddau ar fywyd yr Eglwys. Mae'r rhain yn ymdrin â chwestiynau am awdurdod, gweithredu cyfreithiol a materion eraill a all effeithio ar berthynas pobl â'i gilydd o fewn yr Eglwys.

Yn ein gwaith eciwmenaidd heddiw rydym yn parhau i ddibynnu ar strwythurau i gynnig man i gyfarfod yn rheolaidd, i roi hyder drwy osod ffiniau ar gyfer y ddeialog a sefydlu prosesau i ymdrin â materion a all roi straen ar berthynas pobl â'i gilydd. Er mwyn i'r strwythurau hyn fod yn effeithiol, mae angen i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y gwaith fuddsoddi amser ac egni i sicrhau bod y gwaith hwnnw'n berthnasol. Rhaid iddo gyrraedd y bobl iawn ac mae angen ymdrechu i ehangu'r mannau cyfarfod hyn, gan ddenu mwy o bobl atom a chyfathrebu'n effeithiol â'r Eglwys a'r gymdeithas ehangach.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Beth mae 'undod Cristnogol' yn ei olygu i chi yng nghyd-destun eich profiad chi?
- Ble ydych chi'n gweld y potensial i'r weledigaeth hon o undod gyfoethogi'r gymdeithas ehangach y tu hwnt i'r Eglwys?
- Beth, yn eich barn chi, allai gyfyngu ar botensial y weledigaeth hon i roi bywyd ac undod i'r Eglwys?




**Gweithredu**

- Cymerwch eiliad i feddwl am eich taith eciwmenaidd bersonol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu rhai o'r adegau neu'r cerrig milltir allweddol a gawsoch yn ystod y profiad. Wrth i chi edrych yn ôl, allwch chi nodi unrhyw rwystrau y bu'n rhaid i chi eu goresgyn? Pa wybodaeth ac anogaeth i eraill allech chi eu rhannu ar sail y profiad hwnnw?
- Ystyriwch rannu'r straeon personol hyn mewn grŵp a nodi unrhyw themâu cyffredin sy'n deillio o hynny.
- Allech chi nodi rhai argymhellion ar gyfer gweithredu, ar gyfer eich cyd-destun lleol eich hun, ar gyfer enwadau a/neu gyrff eciwmenaidd a allai helpu i annog mwy o bobl i gymryd rhan yng ngwaith undod Cristnogol trwy fynd i'r afael â rhwystrau a/neu rannu straeon newyddion da?

**Gweddi**

Dduw cariadus,
Boed i'r undod y cawsom ein galw iddo yn dy enw
ddisgleirio fel goleuni i bawb ei weld.
Helpa ni i gefnogi ein gilydd
mewn cyfnodau anodd,
gan gadw ein gilydd ar y llwybr cywir,
y llwybr sy'n arwain at adfer perthynas
mewn cyfiawnder a thrugaredd.
Rho i ni'r dewrder a'r gostyngeiddrwydd
i wynebu'r tensiynau y down ar eu traws
wedi ein harwain nid gan ein buddiannau
a'n hargyhoeddiadau ein hunain
ond yn hytrach gan yr Ysbryd.
Gwyddom na ddylid cadw'r gwaith hwn
o undod tu ôl i ddrysau caeedig
a bod Crist wedi dangos i ni
sut i fyw a rhannu ein ffydd
mewn deialog ag eraill.
Helpa ni i ddilyn yr esiampl hon.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# RHINWEDDAU A BUDDIANNAU GWIRFODDOLI YN YR EGLWYS

Nid yw gwirfoddoli yn yr eglwys yn ymwneud â llanw rolau neu gyflawni pethau yn unig, mae'n fynegiant hanfodol o ffydd, cariad a chymuned. Wrth i Gapel Seion ddechrau ar y gwaith cyffrous o ailddatblygu ein canolfan cymuned yn Nre-fach i fod yn ganolbwynt cymunedol bywiog unwaith eto, cawn gyfle unigryw i ddod at ein gilydd mewn gwasanaeth. Mae hwn nid yn unig yn gyfle i helpu i adeiladu rhywbeth ystyrlon ond hefyd i brofi'r gwobrau dwfn y mae gwirfoddoli yn eu rhoi i'n bywydau a'r rhai o'n cwmpas.

### Ein ffydd ar waith

Wrth wraidd gwasanaeth Cristnogol mae'r esiampl a osodwyd gan Iesu, a ddaeth 'nid i gael ei wasanaethu, ond i wasanaethu' (Marc 10:45). Mae Gwyn yn ystod ei weinidogaeth wedi datgan droeon mae trwy wirfoddoli, rydym yn rhoi ein ffydd ar waith, gan ddangos cariad Crist trwy ein gweithredoedd. Mae'r Beibl yn ein hatgoffa yn Iago 2:17 bod 'ffydd ar ei phen ei hun, os nad yw'n dod gyda gweithredu, wedi marw.' Mae gwasanaeth yn fynegiant gweithredol o'n credoau, gan ganiatáu inni ymgorffori egwyddorion gostyngeiddrwydd, caredigrwydd a haelioni.

Mae gwirfoddoli hefyd yn meithrin twf ysbrydol. Pan fyddwn yn gwasanaethu eraill, meithrin cymeriad tebyg i Grist ydym, gan ddatblygu amynedd, tosturi, a dealltwriaeth ddyfnach o waith Duw yn ein bywydau. Ar ben hynny, trwy weithredoedd o wasanaeth, rydym yn ennill ymdeimlad dwys o ddiolchgarwch, wrth i ni gydnabod y bendithion yn ein bywydau ein hunain wrth helpu'r rhai sydd mewn angen.

### Gweithred anhunanol a bendithiol

Er bod gwirfoddoli yn aml yn cael ei weld fel gweithred anhunanol, mae hefyd yn dod â buddion di-rif i'r unigolyn. Mae'n gwella llesiant, yn rhoi ymdeimlad o bwrpas, ac yn ein cysylltu â chymuned ffydd gefnogol. Mae ymchwil wedi dangos y gall gweithredoedd o wasanaeth leihau straen a gwella iechyd meddwl, gan ddod â llawenydd a boddhad i'r rhai sy'n rhoi o'u hamser a'u doniau. Neges glir i'n pobl ifanc felly. A wyddoch chi mai wrth wenu a gwneud dros eraill mae cael y *serotonin rush* mwyaf yn yr ymennydd.

Y tu hwnt i'r gwobrau emosiynol ac ysbrydol, mae gwirfoddoli hefyd yn helpu i ddatblygu sgiliau newydd. Boed yn cynorthwyo gyda lletygarwch, trefnu digwyddiadau, mentora pobl ifanc, neu gefnogi'r henoed, mae pob rôl yn darparu cyfleoedd i dyfu a dysgu. Gall y profiadau hyn fod yn bersonol gyfoethog a hyd yn oed yn fuddiol mewn bywyd proffesiynol, gan eu bod yn meithrin arweinyddiaeth, gwaith tîm, a galluoedd datrys problemau.



Mae gwirfoddoli yn yr eglwys yn fwy na gweithred o wasanaeth; mae'n alwad i fod yn ddwylo a thraed Crist o fewn ein cymuned. Wrth i ni gychwyn ar bennod newydd gyffrous gydag ailddatblygu Hebron yn ganolbwynt cymunedol bywiog yn Nrefach, ni fu erioed mwy o angen am wirfoddolwyr parod. Ond y tu hwnt i'r manteision ymarferol i'n heglwys a'n cymuned, mae gwirfoddoli yn brofiad hynod gyfoethog sy'n cryfhau ffydd, yn meithrin perthnasoedd, ac yn dod â llawenydd parhaol.

### Sut allwch chi gymryd rhan?

Gyda lansiad Hebron, ein hyb cymunedol wedi'i ailddatblygu, mae sawl ffordd o wasanaethu:

- Tîm Lletygarwch a Chroeso – Helpwch i redeg ein cegin a chaffi, cyfarch ymwelwyr, a chreu awyrgylch cynnes, croesawgar.
- Gweithgareddau Ieuenctid a Phlant – Cynorthwyo gyda gweithdai, cerddoriaeth, neu sesiynau darllen i bobl ifanc, gan feithrin y genhedlaeth nesaf.
- Cymorth Ymarferol – Cefnogaeth gyda sefydlu digwyddiadau, cynnal y gofod, neu gynorthwyo gyda thasgau gweinyddol.
- Allgymorth a Chefnogaeth Gymunedol – Ymwneud â mentrau lleol, casglu ar gyfer y banc bwyd, cynnig cwmnïaeth i'r henoed, neu helpu i drefnu digwyddiadau cymdeithasol.

P'un a allwch chi ymrwymo awr yr wythnos neu fwy, mae pob gweithred o wasanaeth yn cyfrannu at y genhadaeth ehangach. Waeth beth yw eich sgiliau neu gefndir, mae lle i bawb helpu i wneud gwahaniaeth.

Mae gwirfoddoli'n ffordd bwerus o fynegi ffydd, adeiladu perthnasoedd, a dod â llawenydd i'n bywydau. Wrth inni groesawu'r cyfnod newydd hwn yng ngweinidogaeth Capel Seion, gadewch inni achub ar y cyfle i wasanaethu â chalonnau parod. Wrth wneud hynny, rydym nid yn unig yn cryfhau ein cymuned ond hefyd yn cyfoethogi ein teithiau ysbrydol ein hunain.

Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch ag un o'r arweinwyr. Bydd eich amser, eich doniau a'ch brwdfrydedd yn helpu i lunio dyfodol Hebron ar ei newydd wedd a helpu'n cymuned. Gyda'n gilydd, gadewch inni adeiladu gofod lle mae cariad, ffydd a gwasanaeth yn ffynnu.

Cyswllt: gwynelfyn@gmail.com 01269 870893 / 07970 410278. Gwefan: capelseion.uk

## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2025

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Canolfan Nant Gwrtheyrn
25–27 Mehefin

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 9 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

# Barn Annibynnol

## Sut mae mesur gwerth rhywbeth?



Mae'n rhyfedd beth sy'n gwneud i chi feddwl. Rwy'n darllen ar hyn o bryd y gyfrol fechan *Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid* gan W. B. Griffiths. Esboniad Cymraeg sy'n cael ei gydnabod fel clasur yng ngolwg ysgolheigion Beiblaidd. Bu WB, fel y cai ei adnabod, yn Athro Astudiaethau'r Testament Newydd yn y Coleg Coffa, Abertawe, er mai dim ond tymor byr o ddwy flynedd y cafodd yn y gwaith yn dilyn ei farw disymwth yn 1966.

Yn hanes y ffydd Gristnogol does dim cwestiwn ynghylch pwysigrwydd gwerth a chyfraniad y *Llythyr at y Rhufeiniad* o eiddo'r Apostol Paul. Dywedodd John Knox, diwinydd Americanaidd enwog amdano, mai hwn oedd 'y llyfr diwinyddol pwysicaf erioed i'w ysgrifennu.' Yr un pryd rydym yn ddyledus i WB am ei gymwynas fawr yn llunio ei esboniad. Bu W. B. Griffiths hefyd yn gadeirydd y panel yn yr enwad fu'n gyfrifol am baratoi y *Llyfr Gwasanaeth* i'r Annibynwyr ymddangosodd yn 1962 ac mae'n werth darllen y rhagymadrodd i'r *Llyfr Gwasanaeth*: 'Y mae'r Rhagymadrodd ynddo'i hun yn ddatganiad sylweddol a phwysig ynglŷn ag ystyr addoliad Cristnogol.'

### Colli'r lein fach

Lluniodd J. Alwyn Charles ysgrif am WB yn portreadu ei fywyd yn y gyfrol *Athrawon ac Annibynwyr* a olygwyd gan Pennar Davies. Un â'i gynefin yn Hebron, Dyffryn Taf yn Sir Benfro oedd WB. Wedi ei addysg gychwynnol yn ysgol gynradd Pantycaws teithiodd ar drên y Cardi Bach yn ddyddiol i ysgol ramadeg Hendy-gwyn ar Daf ar gyfer ei addysg uwchradd. Byddai'n teithio yn ddyddiol ar y lein fach rhwng Aberteifi a Hendy-gwyn. Yn dilyn toriadau hanesyddol Beeching gwnaed i ffwrdd â'r lein fach. Barnodd rhywun yn rhywle nad oedd y lein fach yn talu ffordd, ac meddai Charles yn ei ysgrif: 'be wyddai'r dienw hwnnw iddi gludo WB a'i debyg i dderbyn addysg a oedd i'w roi ar ben ei ford i wasanaethu'i genedl mewn pulpud a choleg? Nid fel hyn y mesurir y pethau sy'n "talu'r ffordd" bellach.' Tybed? Fel arfer mae'r fwyell yn disgyn pan nad yw rhywbeth yn talu'r ffordd yn ariannol.

### Toriadau diddiwedd

Ai dim ond yn nhermau gwerth ariannol y mae mesur gwerth rhywbeth? Rydym yn eithaf cyfarwydd â thoriadau bellach ers cenedlaethau. Colli meddygfeydd, ysgolion, ysbytai, tafarndai, llyfrgelloedd, capeli ac eglwysi, pyllau nofio heb sôn am wasanaethau di-ri eraill. Mae'n hen gân, cynnydd mewn costau yn ei wneud yn anodd parhau i gynnal sefydliad neu wasanaeth. Cau yn anorfod oherwydd diffyg cyllid a chyfalaf.

Gellwch ddychmygu'r golled i dref prifysgol fel Llanbedr Pont Steffan sy'n brifo ar hyn o bryd yn wyneb penderfyniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i symud darlithoedd holl bynciau dyniaethau (*humanities*) y coleg yno o gampws Llambed i gampws y coleg yng Nghaerfyrddin. Bydd llawer mwy yn y fantol os bydd Prifysgol Caerdydd yn bwrw ymlaen gyda'u holl doriadau arfaethedig hwy. Dychmygwch y golled o golli adrannau cyfan, yn eu plith adran yn hyfforddi nyrsys a'r adran gerddoriaeth, mewn gwlad sy'n prisio ei hun fel gwlad y gân. Ie, does dim digon o arian i gael ac felly mae rhaid gwneud toriadau ariannol llym yn torri hyd at yr asgwrn. Allwn ni fforddio meddwl am y dyfodol yn cael ein hamddifadu o wasanaeth nyrsys o bawb? Mae eu gwerth yn amhrisiadwy ac yn angenrheidiol.

### Gwerth ein treftadaeth

Rydym fel Cymry wedi bod yn brysur gyda'n dathliadau Gŵyl Ddewi ac yn mawrhau bod gan ein gwlad iaith a diwylliant unigryw. Sut mae rhoi gwerth ar yr iaith Gymraeg, ac ar y gorau yn ein diwylliant? Wel, ie, trwy eu defnyddio. Gofalu ein bod yn siarad Cymraeg gan ei defnyddio yn ein bywydau pob dydd, a'i throsglwyddo i blant y genhedlaeth nesaf yn ogystal â'i throsglwyddo i ddysgwyr a mewnfudwyr i'n gwlad.

Mae'n drist meddwl ein bod yn gweld gwerth rhywbeth yn aml wedi i ni ei golli, rhywbeth sy'n wir yn gymunedol am dafarn ac am gapel. Sdim iws colli rhywbeth, yna edrych yn ôl a difaru, gan ddweud tasen ni ond ... A dyna hefyd neges Iesu yn nameg y codau arian/talentau, (Mathew 25:14–30). Cerydd oedd y ddameg yn wreiddiol i arweinwyr yr hen Israel oedd wedi methu yn eu cyfrifoldeb cenhadol, ond gall yr Israel newydd, Cristnogion ac eglwysi Crist heddiw ddod dan yr un condemniad. Ydym ni am weld parhad ein hiaith a'n diwylliant, ein capeli a'n heglwysi? Os na rannwn ni'r efengyl mae perygl i ni ei cholli. Yng ngeiriau'r Sais, 'use it or lose it.' Deffrown felly i'n cyfrifoldeb cenhadol a dangoswn faint o werth rydym yn ei roi ar yr hyn sy'n golygu cymaint i ni.

**Emyr Gwyn Evans**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Cwrdd Chwarter



Oedfa Llywydd Undeb yr Annibynwyr, Y Parchg Jeff Williams

Ebeneser, y Dyfnant, SA2 7TA

Nos Fercher, 12 Mawrth, 2025

am 7.00 o'r gloch

*Croeso cynnes i bawb*



GWAHODDIAD I LANSIAD LLYFR

HOFF ADNODAU'R CYMRY

P'NAWN LLUN AM 2.00


24 MAWRTH 2025

FESTRI CAPEL HEOL AWST CAERFYRDDIN

Darperir lluniaeth ysgafn.

Croeso cynnes i bawb!






Cyhoeddiadau'r Gair

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Gweddïo dros gyfiawnder

Cynhaliwyd noson arbennig yng nghanolfan y Gate, Y Rhath, Caerdydd yn ystod mis bach, gan y Pray for Justice Tour. Roedd cyfarfodydd tebyg wedi eu trefnu ar hyd a lled gwledydd Prydain. Bwriad y digwyddiadau hyn yw ein hannog fel eglwysi i weddïo'n benodol dros gyfiawnder yn enwedig ym maes masnachu pobl sy'n broblem ddifrifol.




Trefnwyd y noson gan ddwy elusen sef IJM (International Justice Mission) a'r Red Community (gychwynnodd yng Nghaerdydd). Ar gychwyn y cyfarfod cafwyd cyfnod o addoliad er mwyn canoli ein meddyliau ar Dduw, ei fawredd, ei berffeithrwydd a'i ewyllys. Fe'n croesawyd yn frwdfrydig iawn gan Clare a Chloe ac fe'n hanogwyd i weddïo yn daer. Meddent, 'Trwy ein gweddïau ni, gallwn beri i gyfiawnder ddigwydd.'

### IJM

Cafwyd cyflwyniad dwys am waith yr International Justice Mission ar hyd a lled y byd a gwelsom fideo dirdynnol am y modd y mae pobl a merched ifanc yn cael eu dal a'u defnyddio ar gyfer y fasnach ryw ac er mwyn gweithio am ddim i wneud dillad gan ddod ag elw mawr i'w 'perchnogion'. Gellir gweld mwy am waith yr elusen hon ar eu gwefan www.ijmuk.org

### Gweddïo

Yna fe'n harweiniwyd i gynnull yn grwpiau bychan er mwyn gweddïo gyda'n gilydd. Roedd yr arweinydd yn dweud yn glir wrthym beth ddylai fod testun ein gweddïau gan newid hynny yn gyson. Rhaid dweud ei bod yn brofiad cynnes a bendithiol i weddïo dros gyfiawnder ac yn erbyn pob math o anghyfiawnderau. Gellir cael canllaw gweddi dros gyfiawnder ac adnoddau ar gyfer y Grawys ar eu gwefan

### Red Community

I gloi'r noson fe siaradodd Dai Hankey, brodor o Gaerdydd, ac un sy'n ddiweddar wedi sefydlu eglwysi newydd yn Sblott a Waun Adda. Y mae'n gwneud llawer o waith gydag ymgeiswyr lloches a phobl sydd wedi eu masnachu yn y brifddinas. Rhannodd gyda ni stori drist am ferched o Nigeria oedd wedi eu cludo i Gaerdydd er mwyn gweithio mewn puteindy. Diolch i'r drefn diwedd yr hanes oedd eu bod wedi cael eu rhyddhau gan yr heddlu ac fe arestiwyd y gwŷr ifanc oedd wedi ei chaethiwo. Datblygiad diweddar, oherwydd dyfodiad technoleg, yw bod merched a dynion ifanc yn cael eu harddangos a'u cam-drin ar-lein a hynny mewn tai cyffredin, mewn strydoedd cyffredin yn ein trefi a'n dinasoedd. Golyga hyn fod yr heddlu yn cael trafferth mawr i ganfod ble mae hyn yn digwydd er mwyn ymyrryd. Y mae'r broblem o fasnachu pobl yn un fawr ac yn anodd ei datrys. Pwysleisiodd D. Hankey yr angen i weddïo'n daer dros y dioddefwyr gan ymbilio am gyfiawnder ar eu rhan. Ar ben hynny rhaid hefyd gweithredu cyfiawnder yn ymarferol. Gwahoddodd unrhyw un oedd yn teimlo ar ei galon y dylent helpu i gysylltu gydag ef.



Gellir cael rhagor o fanylion am yr elusen hon ar eu gwefan www.redcommunity.co.uk

# Colli aelod gwerthfawr



Ar 1 Chwefror fe hunodd un o aelodau oes Saron, Creunant yn 80 oed. Roedd Gwenda yn wraig ffyddlon i Malcolm ac yn fam hynod o gariadus i Hywel ac i'r Parchedig Geraint Lloyd, Caerfyrddin. Yn gyn-athrawes yr ysgol feithrin yn Ysgol Gymraeg Castell-nedd ac yn weithgar tu hwnt gyda Mudiad Merched y Wawr yng Nghastell-nedd, mi fydd hiraeth mawr yn ein bro dros Gwenda. Cwsg mewn hedd.




*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*